
PARTNERS AND TRAILS



Fflora a Ffawna

TAITH TAF MERTHYR TUDFUL

Mae Trail Gazers (TG) yn brosiect partneriaeth Ewropeaidd a sefydlwyd gyda set gyffredin o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Y nod yw datblygu technolegau a systemau arloesol i groniclo gweithgareddau'r llwybrau a datblygu cynlluniau i'w rheoli'n gynaliadwy.

Bydd Trail Gazers yn mesur yr effeithiau economaidd-gymdeithasol a ddaw yn sgil buddsoddi a hyrwyddo llwybrau mewn ardaloedd sy'n meddu ar dreftadaeth naturiol gyfoethog. Gobaith y prosiect yw creu "dangosfwrdd llwybrau", defnyddio offer i dargedu ymwelwyr yn ddigidol, a hybu nifer y twristiaid sy'n mynd i ardaloedd yr Iwerydd.









FOR FURTHER INFORMATION

http://www.trailgazers.eu

TrailGazers Bid

TrailGazers Bid

Trail.Gazers

Partners:

Comhairle Contae Dhún na nGall Donegal County Council · GCU Glasgow Caledonian University · Gobierno de Canarias · Louvigné du Désert · Merthyr Tudful County Borough Council · Câmara Municipal Viana do Castelo · Sligo County Council Comhairle Chontae Shligigh · UAlg Universidade do Algarve · Ulster University · Nasuvinsa Navarra de Suelo y Vivienda, S.A.

Interreg Atlantic Area European Regional Development Fund · EUROPEAN UNION

TRAIL GAZERS Pathways to Rural Development

Mae 55 milltir (88km) Taith Taf (Llwybr Rhwydwaith Seiclo Cenedlaethol 8 a 46) yn llwybr aml-bwrpas ar gyfer rhedwyr, cerddwyr, seiclwyr ac ar gyfer marchogaeth ceffylau.


Mae'n rhedeg rhwng Caerdydd (Prifddinas Cymru) yn y de, i dref farchnad dlos Aberhonddu yn y gogledd. Mae'r llwybr yn rhedeg yn syth trwy Ferthyr Tudful, a oedd unwaith yn brifddinas haearn y byd.

Gan ddefnyddio'r hen dramffyrdd, rheilffyrdd, camlesi a llwybrau tynnu, gallwch fwynhau popeth sydd gan Ferthyr i'w gynnig ac mae darnau helaeth o'r dref wedi'u dynodi'n rhydd o draffig.

Mae teithio i'r gogledd trwy Dref Merthyr yn mynd â chi ar draws Traphont ysblennydd Cefn Coed sy'n adeilad rhestredig Gradd II.

Byddwch yn pasio trwy goetiroedd a gwarchodfeydd natur ac yn croesi Traphont hanesyddol Pont-sarn wrth ichi ddringo'n hamddenol i Gronfa Ddŵr Pontsticill ac ymlaen i Aberhonddu.


Dim ond un o sawl llwybr sy'n rhedeg trwy'r Fwrdeistref Sirol yw Taith Taf. Felly, os ydych chi am gymryd amser i aros yn un o'n hatyniadau antur anhygoel, dysgu am ein hanes, siopa, bwyta, cysgu neu gymryd dim ond ennyd i ryfeddu at y golygfeydd syfrdanol - mae gan Ferthyr y cyfan!



© Copyright : Taith Taf Map

Trail Gazers Bid is co-financed by the Interreg Atlantic Area Programme through the European Regional Development Fund

“An Endless Trail of Possibilities”



Y DRINGWR BACH

Mae’r adar bychain brodorol hyn yn gyffredin iawn ac yn byw mewn coetiroedd llydanddail a chonwydd

Gwyliwch y Dringwyr Bach yn rhedeg ac yn neidio i fyny canghennau i chwilio am bryfed a hadau i fynd â nhw i’w nythod. Pan aflonyddir arnynt, maent yn rhewi, ac mae eu lliw brown brith yn helpu iddynt ymdoddi i’r rhisgl patrymog.

Mae ganddynt streipen wen uwchben eu llygaid a phig hir, denau sy’n troi tuag i lawr. Defnyddir eu cynffon stiff fel aelod ychwanegol i’w helpu i angori yn erbyn y boncyffion fertigol.

Mae’r Dringwr Bach ond yn dringo i fyny coed - byth i lawr, ac mae’n cadw at yr un goeden yn unig. Yr enw torfol amdanynt yn Saesneg yw “spiral”.




CLYCHAU’R GOG

Perlysiau lluosflwydd yw’r rhain. Maent yn frodorol ac yn meddu ar siâp clychau a lliw fioled-las dwfn ac maent yn arwydd sicr o’r gwanwyn.

Fe’u gwelir mewn coetiroedd hynafol ac mae’r rhywogaeth yn un a warchodir. Mae carpedi o’r blodau gwyllt hyn yn arogli’n felys ac yn creu golygfa ysblennydd wrth iddynt nodio i un ochr. Does dim syndod fod chwedloniaeth a byd y Tylwyth Teg yn gysylltiedig â Blodau’r Gôg.

Ar un adeg, defnyddiwyd eu sudd gludiog i rwymo tudalennau llyfrau ac i gludo plu i saethau. Roedd pobl yn Oes Elisabeth yn eu malu i wneud startsh ar gyfer eu ryffiau.

Dywedir, os gallwch chi droi un o flodau clychau’r gog y tu chwith allan heb ei rwygo, byddwch chi’n ennill gwrthrych eich serch.



Y GOLLEN

Yn aml, fe gaiff y Gollen ei phrysgoedio i wneud priciau toi, ffyn dewinio dŵr, dodrefn a pholion tyfu pys/ffa ar gyfer garddwyr.

Mae ganddo risgl llyfn, llwyd-frown, sy’n pilio gydag oedran, a choesau ystwyth, blewog. Mae blagur y dail yn hirgrwn, gyda dannedd dwbl a blew gwlanog ar yr ochr isaf.

Mae’r cynffonnau ŵyn bach gwrywaidd melyn yn ymddangos o flaen y dail ac yn hongian mewn clystyrau o ganol mis Chwefror. Mae’r blodau benywaidd yn fach iawn ac yn debyg i flagur gyda cholofnigau coch ac maent yn datblygu’n ffrwythau hirgrwn sy’n aeddfedu i fod yn gnau poblogaidd.

Fe’i gelwir yn goeden hudol: mae gwialen y Gollen yn amddiffyn rhag ysbrydion drwg ac yn cael ei defnyddio ar gyfer hudlathau.




PILI-PALA BRITH

Pili-pala mawr yw hwn sy’n hedfan yn gyflym, gydag adenydd oren pigfain a streipiau arian ar yr ochr isaf.

Fel arfer, fe’i ceir yn disgyn yn osgeiddig ar ein lonydd cefn gwlad yn agos at goetiroedd llydanddail neu gonwydd, ger eu ffynhonnell fwyd, sef Fioled Gyffredin y Cŵn a’r Fiaren.

Yn syth ar ôl dod allan o’r wy, mae’r larfa bach yn mynd i gysgu o fis Awst i fis Mawrth. Mae hyn yn golygu bod y larfa’n bodoli heb fwyd am oddeutu wyth mis.

Ceir cenhedlaeth sengl bob blwyddyn, gyda’r pili-pala yn hedfan o ddiwedd mis Mehefin i ddiwedd mis Awst.





Y DDRAENEN DDU

Mae’r goeden frodorol hon yn tyfu’n naturiol mewn prysgwydd, coedlan a choetir, ond fe’i defnyddir yn gyffredin ar gyfer gwrychoedd.

Mae gan goed y Ddraenen Ddu gymylau o flodau claerwyn o ddechrau’r gwanwyn. Mae’n goeden bigog, brysglyd gyda brigau du-borffor sy’n datblygu’n ddrain.

Gall coed aeddfed dyfu i uchder o tua 6-7m a byw am hyd at 100 mlynedd. Maent yn fwyaf adnabyddus am eu ffrwythau tywyll, cyfoethog (eirin surion bach) a ddefnyddir yn draddodiadol i wneud jin eirin.

Dywedir bod ffyn hud y gwrachod wedi’u gwneud o’r ddraenen ddu. Heddiw, fe’i defnyddir i wneud ffyn cerdded.

Y TROCHWR

Mae’r trochwr yn aderyn tew, canolig ei faint gyda chynffon fer ac mae’n hedfan yn droellog ac yn isel.

Fe’i gwelir yn aml yn eistedd ar garreg mewn afon neu nant sy’n llifo’n gyflym, ac fel arfer mae’n siglo i fyny ac i lawr ac yn codi’i gynffon yn aml.

Mae ei wddf gwyn a’i fron yn cyferbynnu â phlu tywyll ei gorff. Mae’n bwydo ar bryfed tanddwr ac fe ddaw o hyd iddynt trwy gerdded yn syth i mewn i’r dŵr ac yna’n gyfan gwbl oddi tano.

Defnyddir safleoedd nythu gan genedlaethau olynol o adar. Dywedir bod un safle wedi’i ddefnyddio’n barhaus am 123 o flynyddoedd.



Y CRËYR GLAS

Aderyn dŵr nad yw’n nofio yw hwn ac mae’n bwydo ar gyrion llynnoedd, afonydd, corsydd, pyllau a’r môr.

Mae’r Crëyr Glas yn aderyn amlwg iawn ac yn edrych yn gynhanesyddol. Mae’n dal, gyda choesau hir, pig fel dagr a phlu llwyd, du a gwyn. Gall sefyll fel cerflun gyda’i wddf siâp S wedi’i ymestyn allan wrth chwilio am fwyd, neu gall grymu i lawr gyda’i wddf wedi’i blygu dros ei frest.

Gall ymestyn lled ei adenydd 6 troedfedd, cyrraedd cyflymder o 30 mya a byw am 15 mlynedd (yn wyllt) neu am 25 mlynedd mewn caethiwed.

With wingspans that can stretch 6ft they can reach speeds of 30 mph and can live for 15 yrs (wild) or 25yrs in captivity.



Y DYFRGI

Byddwch yn ffodus i weld ein Dyfrgi am ei fod mor anodd dod o hyd iddo. Chwiliwch am arwyddion fel eu holion traed pum bys neu eu

Maen nhw’n ysglyfaethwyr mawr, pwerus ond prin, ac yn bwydo ar bysgod, adar dŵr, amffibiaid a chramenogion. Mae cenawon y dyfrgwn yn cael eu cadw mewn tyllau tanddaearol (gwalau) a gallant nofio ar ôl cyrraedd 10 wythnos oed. Mae angen afonydd glân arnynt, ffynhonnell fwyd doreithiog a digon o lystyfiant i guddio’u gwalau diarffordd.

Mae eu baw yn cynnwys negeseuon persawrus sy’n cael ei adael mewn lleoedd amlwg i’w helpu i ganfod ffrindiau ac amddiffyn tiriogaethau. Mae’n cynnwys esgyrn pysgod ac mae ganddo arogl dymunol, sy’n atgoffa rhywun o de jasmin!

Mae gan ddyfrgwn draed gwe, ffwr trwchus i’w cadw’n gynnes, a gallant gau eu clustiau a’u trwynau pan fyddant o dan y dŵr.



RHEDYNEN Y CALCHFAEN

Er nad oes ganddynt flodau, mae’r rhedyn collddail, toreithiog, hynafol a chyntefig hyn yn blanhigion godidog sy’n atgenhedlu trwy sborau.

Mae’r Rhedyn yn dynodi’r gwanwyn wrth iddynt godi o’r ddaear fel ffrondiau sydd wedi’u cyrlio mewn peli bychain. Wrth ymagor, fe drônt yn “ddyrnau” llai ac yna’n ddail. Fel yr awgryma ei enw, mae wrth ei fodd â chalchfaen ac fe dyf o graciau a holltau.

Mae’n tyfu mewn stribedi eang ar draws y brigiadau creigiog yn ardal Bannau Brycheiniog ac o’i chwmpas, ac yn ddiweddar fe’i cynaeafwyd fel gwellt gwely ar gyfer gwartheg. Ymddangosodd rhedyn yn gyntaf mewn ffosil sy’n dyddio’n ôl tua 360 miliwn o flynyddoedd.

Yn ôl llên gwerin, credir bod unrhyw un sy’n gweld blodyn rhedyn yn sicr o fod yn hapus ac yn gyfoethog am weddill eu hoes.



CEN

Gall cen fod yn fawr ac yn llachar neu’n fach ac yn dywyll ac mae’n meddu ar amrywiaeth o siapiau fel barfau trwchus a smotiau crystiog.

Mae coetiroedd hynafol yn arbennig o bwysig i gen am eu bod yn darparu amgylcheddau digyffro lle gallant ffynnu. Mae cen yn cymryd amser hir i ddatblygu, gan dyfu dim ond 1-2mm y flwyddyn.

Chwiliwch am ysgythradau bychain o liw yn tyfu ar greigiau, waliau, brigau, rhisgl a hyd yn oed arwynebau pridd agored. Nid yw cen yn barasitig: maent yn darparu deunyddiau nythu defnyddiol ar gyfer adar yn ogystal â bwyd a chysgod i lawer o infertebratau.

Mae coedwigoedd sy’n llawn cennau yn cynnal mwy o fywyd gwyllt nag unrhyw rai eraill ac yn amlygu ansawdd yr aer o’u hamgylch.